OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 3143 (Cy.315)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*19 Rhagfyr 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*20 Rhagfyr 2012*
Yn dod i rym - -	*11 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn wrth arfer y pwerau hynny.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2012. Daw i rym ar 11 Ionawr 2013 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (3) o erthygl 19 (gwaharddiadau rhag glanio plâu planhigion a deunyddiau perthnasol) rhodder—

"(3) Paragraph (4) applies to—

(a) seed potatoes grown or suspected to have been grown in another member State or in Switzerland; and

(**1**) 1967 p.8. Diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Atodlen 4, paragraff 8. Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 2 a 3 yn cael eu rhoi i "competent authority". Yr awdurdod cymwys a ddiffinnir yn adran 1(2), o ran amddiffyn coed a phrennau coedwigaeth rhag ymosodiad gan blâu yw'r Comisiynwyr Coedwigaeth ac fel arall, a bellach o ran Cymru, Gweinidogion Cymru.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1978/272). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).

(**3**) O.S. 2006/1643 (Cy.158), fel y'i diwygiwyd gan O.S.2007/2716 (Cy.229), O.S. 2007/3305 (Cy.292), O.S. 2008/2781 (Cy.248), O.S. 2008/2913 (Cy.257), O.S. 2009/1376 (Cy.137), O.S. 2010/1795 (Cy.171) ac O.S. 2010/2976 (Cy.247).